ADRODDIAD BLYNYDDOL TELEDU CYLCH CAEËDIG 2015-2016

© Gwobr 'Cydnabod Rhagoriaeth' Tîm TCC y Flwyddyn

CYFLWYNIAD

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei gyhoeddi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn unol â Chôd Ymarfer TCC ar gyfer gweithredu a rheoli'r system.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Heddlu Gogledd Cymru a sefydliadau busnes yn parhau i fod o'r farn y bydd TCC yn lleihau achosion o drosedd ac anhrefn cyhoeddus lle mae camerâu naill ai wedi'u gosod neu yn cael eu cyflwyno. Mae hefyd yn cynorthwyo i reoli traffig ac yn gwella hyder y gymuned, gan greu amgylchedd mwy diogel i drigolion, masnachwyr, twristiaid ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Dyma brif amcanion y System TCC:

- Cynorthwyo pan fo pryder am drosedd ac i ganfod ac atal troseddau.
- Hwyluso'r gwaith o ddal ac erlyn troseddwyr mewn perthynas â throsedd a threfn gyhoeddus.
- Rhoi mwy o ymdeimlad o ddiogelwch a sicrwydd i drigolion, ymwelwyr a busnesau.
- Gwella diogelwch cymunedol, rhoi hwb i'r economi ac annog mwy o ddefnydd o ganol y dref/canolfan siopa, ac ati.
- Cynorthwyo'r Awdurdod Lleol yn ei swyddogaeth gorfodi a rheoleiddio.
  (Yn benodol mewn perthynas â Chanlyniad 2 a 6 Cynllun Corfforaethol CBSC 2012-2017)
- Cynorthwyo i reoli traffig.

Y CAMERÂU

Mae'r System yn cynnwys 114 o gamerâu (sydd 1 yn llai ers yr adroddiad diwethaf) mae 103 yn gamerâu gofod cyhoeddus ac 11 yn gamerâu monitro adeiladau a safle. Mae union leoliad camerâu ar gael ar ein Gwefan Gyhoeddus. Mae'r warant wedi dod i ben ar yr holl gamerâu gofod cyhoeddus erbyn hyn a'r hen dechnoleg analog, maent hefyd yn ddrud i'w rhedeg oherwydd costau rhentu uchel ffibr. O ganlyniad i hyn dylai fod gan Gonwy achos busnes Gwario i Arbed da i leihau'r costau hyn, ac felly rydym yn archwilio opsiynau amrywiol o ran cyllid nawr a thrwy gydol y flwyddyn nesaf.

Lleoliad Camerâu TCC - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ym Medi 2015 cwblhawyd adolygiad blynyddol llawn o leoliadau camerâu a'r cyfiawnhad am eu gosod fel yr argymhellwyd gan y Côd Ymarfer Camerâu Gwyliadwriaeth newydd 2013 Surveillance camera code of practice - Publications - GOV.UK (Saesneg yn unig)

Ar gyfer yr adolygiad casglodd Cyngor Conwy dystiolaeth ar 8 o ffactorau i gynorthwyo i benderfynu a yw pob camera unigol yn angenrheidiol ac yn gymesur, a rhoddwyd y canlyniadau mewn matrics sgorio oedd wedyn yn dangos pa gamerâu oedd yn sgorio isaf. Dyma'r ffactorau a ystyriwyd,

- Troseddau Heddlu Gogledd Cymru mewn Ardal gyda Chamerâu TCC
- Digwyddiadau TCC
- Addas i'r pwrpas

- Rhentu ffibr a chostau eraill ynghlwm â'u cynnal
- Diogelu'r llinell weledigad ar gyfer y dyfodol e.e a yw lleoliad y camera yn addas i ddefnyddio technoleg newydd ddi-wifr.
- Cyfraniadau ariannol
- Barn y Gweithredwr
- Tawelwch meddwl i'r cyhoedd

Y 15 camera canlynol a sgoriodd isaf ac maent ar hyn o bryd o dan adolygiad pellach ar gyfer 2016/17 gyda rhai'n cael eu hargymell ar gyfer eu datgomisiynu gan mai ychydig o dystiolaeth a ddangosir o angen dybryd.

C03 Penmaenmawr, Esplanade.	Dan Adolygiad
C07 Conwy, Morfa	Argymell datgomisiynu o ganlyniad i leihad mewn angen dybryd a mater technegol heb ei ddatrys yn ymwneud â'r Llinell Weledigad ddi-wifr.
C10 Conwy, Lancaster Square	Dan Adolygiad
C17 Conwy, Maes Parcio Benarth Road	Dan Adolygiad
C18 Cob Conwy	Dan Adolygiad
C23 Deganwy	Dan Adolygiad
C27 Canolfan Fusnes Cyffordd Llandudno	Argymell datgomisiynu neu newid y diben i ddiogelu'r adeilad
C57 Llandudno, Ffordd Elizabeth	Argymell casglu barn gyhoeddus i werthuso a yw'r camerâu yn rhoi tawelwch meddwl i'r cyhoedd. Arolwg Cyhoeddus wedi ei gwblhau Chwefror 2016.
C62 Llandrillo-yn-Rhos, Pwll padlo	Dan Adolygiad
C63 Rhodfa Penrhyn, Llandrillo-yn-Rhos	Dan Adolygiad
C72 & 73 Mochdre, Bron y Nant	Argymell datgomisiynu neu newid y diben i fonitro'r safle
C91 Bae Colwyn, Rhiw Road	Dan Adolygiad
C101 Hen Golwyn, Min Y Don	Dan Adolygiad
C110 Abergele, Threeways	Dan Adolygiad
C111 Abergele, Water Street	Dan Adolygiad
C104 & 105 Hen Golwyn, Peulwys	Argymell casglu barn gyhoeddus i werthuso a yw'r camerâu yn rhoi tawelwch meddwl i'r cyhoedd. Arolwg Cyhoeddus wedi ei gwblhau Chwefror 2016.

O ganlyniad i'r Adolygiad blynyddol cafodd C07 ym Morfa Conwy ei symud o'r polyn yn Rhagfyr 2015.

TCC SYMUDOL

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu grŵp o 10 camera ar gael ar gyfer eu gosod yn gyflym, gall y camerâu hyn gael eu gosod mewn ardaloedd problemus neu ardaloedd lle nad oes TCC gofod cyhoeddus ar gael. Mae pob cais yn amodol ar gwrdd â meini prawf a chaiff y weithred o osod y camerâu ei awdurdodi drwy'r Grŵp Tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

YR YSTAFELL REOLI

Cafodd yr Ystafell Reoli ei huwchraddio yn 2010, gyda System Ddigidol newydd wedi'i gosod o'r enw FUSION2. Cefnogwyd y system hon a'r feddalwedd gysylltiedig tan 2015 a nawr bydd angen buddsoddiad yn y fersiynau diweddaraf er mwyn caniatáu ehangu. Mae bwriad i uwchraddio'r Ystafell Reoli yn Haf 2016 a fydd yn ein galluogi i gyflwyno ein Camera Manylder Uwch cyntaf.

Mae'r Ystafell Reoli TCC hefyd wedi'i chynnwys yn y Strategaeth Swyddfeydd bresennol gydag adleoliad wedi'i gynnig yn y blynyddoedd nesaf.

STAFFIO

Nid oes newid i lefelau staffio gydag 8 o weithredwyr llawn amser ac 1 rheolwr llawn amser yn parhau yn eu swyddi. Ond dechreuwyd ymgynghoriad llawn gyda staff ym Mawrth 2016 mewn ymgais i leihau costau staffio.

Mae'r holl staff wedi eu trwyddedu gan yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch (SIA) ac maent wedi pasio Gwiriad Personél heb fod trwy'r Heddlu, roedd hyn yn ofyniad i'n galluogi i barhau i ddefnyddio radio tonnau awyr Heddlu Gogledd Cymru.

YSTADEGAU 2015 - 2016

Mae'r ystadegau canlynol yn rhoi manylion nifer y digwyddiadau a gofnodwyd gan Weithredwyr TCC. Roedd yna **6951** o ddigwyddiadau TCC y llynedd, 567 o'r rhain yn ymwneud â monitro safle. Fodd bynnag, dylid nodi mai digwyddiadau TCC yw'r rhain ac nid o reidrwydd troseddau a gofnodwyd.
E.e. mae gweithredwr yn monitro ci yn baeddu ac yn pasio'r wybodaeth i Swyddog Gorfodaeth Amgylcheddol, mae Defnyddiwr Cyswllt Radio Cynllun Gwylio Tafarndai yn gofyn i TCC fonitro gŵr meddw, mae TCC yn gofyn i'r heddlu fynychu a rhoddir cyngor addas gan swyddogion.

Deg Uchaf yr Ardal	Nifer y Digwyddiadau
Llandudno	3282
Bae Colwyn	1607
Cyffordd Llandudno	569
Llandrillo-yn-Rhos	301
Conwy	222
Abergele	201
Hen Golwyn	191
Penmaenmawr	91
Mochdre	90

Pensarn	88
Bae Cinmel	84
Tywyn	47
TCC	45
Llysfaen	36
Deganwy	36

15 Math Uchaf o Ddigwyddiad	Digwyddiadau
Cyhoeddi Codau ar gyfer Parcio Bysiau	378
Monitro Man Problemus am Faw Cŵn	339
Amgylchiadau Amheus	242
Monitro Pobl	225
Plentyn Coll (ar goll o gartref)	223
Swnllyd / Gwrthgymdeithasol	204
Patrôl Golau Gwyn	189
Larwm yn canu	175
Monitro Unigolion Hysbys/Amheus	169
Pryder am ddiogelwch	166
Ymddygiad swnllyd/gwrthgymdeithasol	166
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	163
Cadw golwg ar ddyn	162
Cadw golwg ar bobl	159
Dwyn o siopau	129


Incident Logs Trend by Hour of Day : From 01 Apr 2015 To 31 Mar 2016
Incident Count
500
450
400
350
300
250
200
150
100
50
0
0 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10 11 12 13 14 15 16 17 18 19 20 21 22 23


Incident Logs Trend by Weekday : From 01 Apr 2015 To 31 Mar 2016
Incident Count
1400
1200
1000
800
600
400
200
0
Sunday
Monday
Tuesday
Wednesday
Thursday
Friday
Saturday
Total number of Incidents = 6,951

Camerâu (40 Camera Prysuraf)	Nifer y Digwyd diadau
001 Aml gamerâu	1663
055 Safle Bysiau Builders Street	407
036 Upper Mostyn Street	240
083 Ffordd yr Orsaf B/Colwyn (Gwaelod)	215
082 Ffordd yr Orsaf (Top)	176
040 Mostyn Street/Tafarn y Carlton	156
046 Vaughan Street/Gorsaf Reilffordd	155
065 Rhos Road	152
056 Parc Sglefrio/Builder Street	149
043 Mostyn Street/M&S	136
041 Mostyn Street/Natwest	133
031 Parc Cae Derw	131
045 Gerddi'r North Western	128
042 Lloyd Street/Madoc Street	122
049 Mostyn Champneys/Siop B&Q	103
095 Ffordd Abergele/Gerddi Meirion	
044 Trinity Square/Banc Lloyds	97
028 Gorsaf Reilffordd Cyffordd Llandudno	87
034 Gloddaeth Avenue The Palladium	83
058 Siopau Ffordd Las/Llandudno	81
113 Cylchfan Pensarn	65
089 Eglwys St Pauls / Ffordd Abergele	61
102 Cefn Road/Hen Golwyn	59
039 Y Senotaff Traeth y Gogledd	58
053 Craig y Don	57
100 Tafarn y Plough	57
093 Greenfield Road/Travelodge	55
107 Cylchfan Tesco / Market Street	55
054 Pwll Padlo/Llandudno	54
030 Maes Parcio Maelgwyn	53
108 Tafarn y George & Dragon/Abergele	51
086 Seaview Road	51
092 Ffordd Abergele/Greenfield Road	50

022 Cylchfan y Weekly News	50
035 Maes Parcio Market Street	49
115 Croesffordd Bae Cinmel	49
114 Croesffordd Tywyn	48
128 Camerâu 3G	46
077 Conway Road/Canolfan Waith Colwyn	46

Ystafell Reoli

CYLLID

Costau Blynyddol TCC i bob Camera 2015-16 (i bwrpas ad-dalu) yw £4010

	Y flwyddyn hyd yn hyn		
	Cyllideb	Gwirioneddol	Amrywiant
TCC	£	£	£
CYFANSWM GWEITHWYR	289,060	289,672	612
CYFANSWM ADEILADAU	850	1,634	784
CYFANSWM CLUDIANT	250	1,811	1,561
CYFANSWM CYFLENWADAU	189,270	188,361	-909
GWASANAETHAU CEFNOGI	1,200	1,494	294
CYFANSWM INCWM	-70,280	-64,448	5,832
CYFANSWM TCC	410,350	418,524	8,174